

**Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd ar Gomisiynu Cartrefi Gofal**

**Darparwyd gan: Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu canfyddiadau adroddiad y Pwyllgor ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r 13 o argymhellion yn yr adroddiad.

**Argymhelliad – 1. Rydym yn nodi'r gwaith parhaus i werthuso gweithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, ond yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd ynghylch sut y mae'n gweithio gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a rhanddeiliaid eraill i adolygu cydymffurfedd â darpariaethau comisiynu cartrefi gofal a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.**

***Derbyn***

Pwrpas craidd astudiaethau gwerthuso Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yw deall profiadau a disgwyliadau'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Swyddogaeth cyrff rheoleiddio, yn yr achos hwn Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), yw asesu cydymffurfiaeth â'r fframwaith statudol fel y mae'n cymhwyso i'r sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys comisiynu darpariaeth. Ategir hyn gan fframwaith gwella perfformiad cenedlaethol ac adroddiadau awdurdodau lleol gan gynnwys adroddiadau blynyddol gan gyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol statudol.

Byddwn ni'n sicrhau bod y fframwaith cydymffurfio a'r fframwaith perfformiad hwn yn esblygu drwy ddiwygiadau ein rhaglen waith Ailgydbwysu Gofal a Chymorth a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn 2023, ac yng nghyd-destun argymhellion y cytunwyd arnynt gan y Grŵp Arbenigol ar y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol.

Yn ogystal, mae adroddiadau Archwilio Cymru ac adolygiadau annibynnol eraill (adolygiad KPMG 2019) o gomisiynu ar y cyd a chyfuno cyllidebau rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol at ddibenion comisiynu lleoliadau i bobl hŷn wedi dangos effaith ac effeithiolrwydd cyfyngedig y trefniadau presennol. Drwy'r rhaglen waith ailgydbwysu gofal a chymorth i ddatblygu fframwaith comisiynu cenedlaethol a chryfhau gwaith rhanbarthol bydd y dyletswyddau a'r disgwyliadau presennol yn cael eu hadolygu a'u hegluro. Ymhellach at hyn mae'r rhaglen waith ailgydbwysu yn ceisio datblygu trefniadau monitro perfformiad a threfniadau arolygu ar y cyd ar gyfer gweithio integredig.

**Argymhelliad – 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried llais defnyddwyr gwasanaethau fel rhan o'i gwaith diwygio polisi yn y maes hwn. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru am sut**

**y mae wedi ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd, fel rhan o waith y grŵp arbenigol ar ofal cymdeithasol.**

### ***Derbyn***

Sefydlwyd y Grŵp Arbenigol annibynnol i greu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen, a dechreuodd gwrdd ym mis Chwefror 2022.

Mae'r Grŵp yn annibynnol ar y llywodraeth ac mae'n cynnwys unigolion o ystod o gefndiroedd amrywiol sy'n cynnig safbwyntiau dinasyddion, rheoli gwasanaethau, gweinyddiaeth gyhoeddus, cynrychiolaeth y gweithlu a'r byd academiaidd. Mae'r Grŵp Arbenigol hefyd yn anelu at gynrychioli barn pobl Ddu, Asiaidd, ac ethnig leiafrifol, a gwella'r defnydd o'r Gymraeg ym maes gofal cymdeithasol.

Nid oedd Cylch Gorchwyl y Grŵp Arbenigol, a osodwyd gan Weinidogion ac Aelod Dynodedig Plaid Cymru, yn cynnwys disgwyliadau ynghylch ymgynghoriad cyhoeddus helaeth. Mae hyn oherwydd unwaith y bydd adroddiad y Grŵp Arbenigol yn cael ei ystyried gan Weinidogion a'r Aelod Dynodedig, bydd cyfnod helaeth o ymgynghori cyhoeddus, gan gynnwys gyda defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd, fel rhan o'r broses i ddatblygu cynllun Gweithredu.

**Argymhelliad – 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Grwpiau Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru sy'n datblygu'r Fframwaith Cenedlaethol newydd ar gyfer Gofal Cymdeithasol ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth fel rhan o'u gwaith. Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y caiff hyn ei gyflawni, fel rhan o'i hymgyngoriad yng ngwanwyn 2023.**

### ***Derbyn***

Mae Partneriaid y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth – sy'n cynnwys aelodaeth y Grŵp Technegol ar gyfer y Fframwaith Cenedlaethol ac aelodaeth o Grwpiau Gorchwyl a Gorffen i Gryfhau trefniadau partneriaeth ranbarthol – yn cynnwys amrywiaeth o leisiau o bob rhan o'r sector gofal cymdeithasol a gofal iechyd. Mae'r aelodau wedi ymrwymo i gynrychioli'n gywir safbwyntiau eu sefydliad enwebu a/neu eu rhanbarth, mewn perthynas â gofal a chymorth, ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf o drafodaethau'r Grŵp i'w rhwydweithiau eu hunain roi adborth yn briodol.

Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen ar lais dinasyddion ac ymgysylltu yn adolygu effeithiolrwydd dulliau partneriaeth ranbarthol gan gynnwys barn defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a dinasyddion eraill. Mae cynrychiolwyr dinasyddion wedi bod yn cymryd rhan yn uniongyrchol yng ngwaith y grŵp gorchwyl a gorffen hwn.

Bydd y rhaglen gyfan yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus helaeth gan ddechrau yng ngwanwyn 2023, ac yn y cyfamser rydym yn cyfathrebu gan ddefnyddio ein cylchlythyr rhaglen.

**Argymhelliad – 4. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried annog a chefnogi rôl gwirfoddolwyr mewn cartrefi gofal, ond o fewn ffiniau llym cefnogi**

**ansawdd bywyd, megis datblygu diddordebau cyffredin a gweithgareddau. Ni ddylid defnyddio gwirfoddolwyr i ddarparu gwasanaethau gofal proffesiynol.**

### ***Derbyn***

Yn 2021 ariannodd Llywodraeth Cymru brosiect peilot bychan er mwyn recriwtio gwirfoddolwyr i gefnogi ymweliadau diogel rhwng preswylwyr a pherthnasau yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn cefnogi cartrefi gofal drwy leihau'r pwysau ar staff i ymgymryd â'r rôl benodol hon.

Rydym bellach yn adeiladu ar y dull o recriwtio, hyfforddi a sefydlu gwirfoddolwyr a ddatblygwyd yn ystod y prosiect cychwynnol. Nod ein prosiect newydd sy'n cael ei ariannu gan grant gydag Age Cymru yw ehangu rôl, cyrhaeddiad, sgiliau, a nifer y gwirfoddolwyr ar draws cartrefi gofal yng Nghymru, yn seiliedig ar adborth o'r prosiect peilot, gan sicrhau bod rolau gwirfoddolwyr yn glir a phriodol. Y targed yw recriwtio 80 o wirfoddolwyr newydd ar draws 20 o gartrefi gofal yng Nghymru mewn pedair ardal ddaearyddol (Gwynedd, Rhondda Cynon Taf, Gwent and Pembrokeshire) gyda chefnogaeth sefydliad lleol ym mhob ardal. Y nod yw gweithio gyda 5 cartref gofal ym mhob ardal. Rydym wedi rhoi nawdd o £63,000 i Age Cymru i ymgymeryd a'r gwaith.

Fel rhan o'r prosiect hwn, a gynhelir rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Mawrth 2023, bydd gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i ymgysylltu â phreswylwyr cartrefi gofal gan ddefnyddio'r dull 'ymholi gwerthfawrogol'; mae hyn yn gweithio gyda gwerthoedd pobl, gan barchu straeon cudd o brofiadau a naratifau personol, gan ddangos sensitifrwydd i deimladau. Bydd hyfforddi gwirfoddolwyr fel hyn yn cefnogi preswylwyr i roi adborth i'r cartref gofal am y materion sy'n bwysig iddyn nhw. Bydd gwirfoddolwyr hefyd yn cael eu hyfforddi i gefnogi cydlynwyr gweithgareddau i adfywio cartrefi gofal yn ystod y cyfnod pontio hwn yn dilyn y pandemig tuag at ffordd fwy normal a bywiog o fyw.

**Argymhelliad – 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried, fel rhan o'r gwaith i ddatblygu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, beth arall y gellir ei wneud i adolygu cyflogau a thelerau ac amodau gweithwyr gofal, i sicrhau cydraddoldeb â staff y GIG ac i fod yn gystadleuol â diwydiannau eraill, megis y diwydiant lletygarwch. Heb dâl ac amodau cydradd, bydd y sector yn parhau i wynebu problemau recriwtio a chadw staff.**

### ***Derbyn***

Mae cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac yn ymrwymiad allweddol yn y rhaglen lywodraethu. Roedd angen cymorth brys ar y sector i fynd i'r afael â phroblemau recriwtio a chadw staff, a oedd wedi'u gwaethygu gan yr heriau eithafol a gyflwynwyd yn ystod pandemig COVID-19. Sicrhawyd bod £43 miliwn o gyllid ar gael i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, i gyflawni ymrwymiad y Cyflog Byw Gwirioneddol.

Yn 2020, cynhaliodd Llywodraeth Cymru'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, sef grŵp partneriaeth gymdeithasol lle daw undebau llafur, cyflogwyr a'r Llywodraeth at ei gilydd i edrych ar sut y gellir gwella amodau gwaith gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru a dod o hyd i opsiynau tymor hir a chanolig i fynd i'r afael â'r pryderon

recriwtio, i wella telerau ac amodau'r gweithlu ac i ddod o hyd i ffyrdd o wella ac adeiladu sector cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae'r Fforwm wedi ymrwmo i gydweithio i ddylanwadu ar flaenoriaethau a pholisi cenedlaethol o ran gwaith teg yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru ac i weithio'n uchelgeisiol ac yn bragmatig i gyflawni newid ymarferol a gweithredol.

Mae'r Fforwm wedi blaenoriaethu rhai materion o ran gwaith teg yn y sector:

- Talu o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol i'r holl staff gofal cymdeithasol;
- Datblygu model cyflog a chynnydd ar gyfer staff gofal cymdeithasol;
- Penderfynu sut y gallai model o gydfargeinio weithredu yn y sector;
- Archwilio rôl a phrofiadau Cynorthwyr Personol mewn gofal cymdeithasol a'u gallu i gael gafael ar waith teg;
- Cefnogi amgylcheddau gwaith diogel, iach a chynhwysol ym maes gofal cymdeithasol;
- Deall effaith oriau nad ydynt wedi'u gwarantu ar weithwyr, ac i ba raddau y mae gan weithwyr wybodaeth am eu hawliau a'u gallu i weithredu'r hawliau hynny.

Yn y tymor byr mae'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol wedi canolbwyntio ei ymdrechion ar welliannau i gyflog ac wedi rhoi cyngor ar sut y gallwn fwrw ymlaen â'r Cyflog Byw Gwirioneddol, mae bellach yn canolbwyntio ar ei flaenoriaethau ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys mynd i'r afael â chyflogau isel yn y sector annibynnol a gomisiynir drwy edrych ar strwythurau cyflog a datblygu model y gellid ei roi ar waith ledled Cymru. Mae strwythur cynnydd cyffredinol i'r sector yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd ar gyfer ymgynghoriad yn gynnar yn 2023. Cafodd y model yma ei ddatblygu efo mewnbn gan arbenigwyr Adnoddau Dynol ofewn y sector ac undebau ac mae yn seiliedig ar fandiau lefelau cymwysterau ofewn gwasanaethau gofal, lefelau cofrestru y gweithly a fframweithiau cymhwysedd presennol.

**Argymhelliad – 6. Rydym yn cefnogi Argymhelliad 14 o adroddiad diweddar y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â Llywodraethau Cymru sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad cadarn o ymgyrch recriwtio Gofalwn.Cymru.**

### ***Derbyn***

Byddwn ni'n gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i sicrhau gwerthusiad cadarn o ymgyrch Gofalwn.Cymru drwy ystod o weithgareddau gwerthuso.

Mae Gofalwn.Cymru yn cynnwys cyfres o ymgyrchoedd â ffocws a reolir gan Ofal Cymdeithasol Cymru sy'n mynd i'r afael â materion a heriau allweddol sy'n wynebu'r sector. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant wedi'i hwyluso drwy'r cynllun Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol a'r wefan sy'n cynnwys porth swyddi.

Gan mai Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n rheoli ymgyrch Gofalwn.Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n gyfrifol am werthuso'r ymgyrch hon. Mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu cyllid tuag at Gofalwn.Cymru, ac rydym o'r farn ei bod yn briodol bod gan Ofal Cymdeithasol Cymru'r cyfrifoldeb am werthuso effaith ei waith. Mae

mecanweithiau presennol ar waith i Lywodraeth Cymru oruchwyllo gwaith Gofal Cymdeithasol Cymru a sut mae'n cyflawni yn erbyn ei ganlyniadau strategol.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn comisiynu ymchwil manwl er mwyn deall dulliau cyflogwyr gofal o recriwtio a'r rhwystrau a geir yn well. Bydd yr ymchwil hefyd yn deall sut mae cyflogwyr yn ymwneud â Gofalwn.Cymru a'u hymwybyddiaeth ohono, a sut y gallai hyn fod wedi effeithio ar eu recriwtio. Bydd yr ymchwil hon wedi'i chwblhau erbyn mis Ebrill 2023. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn cynnal arolwg canfyddiad y cyhoedd a fydd yn adeiladu ar yr arolygon a gynhaliwyd yn 2018 a 2020 ac yn darparu data tueddiadau ar farn a safbwyntiau'r cyhoedd ar y sectorau gofal cymdeithasol, gofal blynyddoedd cynnar a gofal plant. Roedd yr ail arolwg canfyddiad y cyhoedd a gynhaliwyd yn 2020 yn dangos bod agweddau'r cyhoedd ynglŷn â gwerth y sector a'i weithlu wedi gwella. Disgwylir cwblhau'r trydydd cylch o arolygon canfyddiadau'r cyhoedd yn gynnar yn 2023.

**Argymhelliad – 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill i ddenu mwy o wirfoddolwyr i'r sector cartrefi gofal i ddarparu gwasanaethau ansawdd bywyd ychwanegol, ond nid i gymryd lle gofal proffesiynol.**

### ***Derbyn***

Rydym yn gweithio gyda nifer o randdeiliaid allweddol fel rhan o'n prosiect gwirfoddolwyr sy'n cael ei ariannu gan grant i ehangu rôl, cyrhaeddiad, sgiliau, a nifer y gwirfoddolwyr ar draws cartrefi gofal yng Nghymru. Mae'r rhanddeiliaid hyn yn cynnwys Age Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Fforwm Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Bydd cyfarfod agoriadol grŵp rhanddeiliaid y prosiect yn cael ei gynnal ym mis Hydref.

**Argymhelliad – 8. Mae angen i Lywodraeth Cymru orfodi dull mwy rhagweithiol o rannu gwybodaeth ar draws y sector cartrefi gofal, yn enwedig gwybodaeth am brofiad a boddhad defnyddwyr gwasanaeth, yn gysylltiedig â'r saith nod llesiant i Gymru. Dylid gweithredu'r gofyniad gorfodol hwn i rannu gwybodaeth yn genedlaethol, er mwyn sicrhau bod darparwyr, defnyddwyr gwasanaeth, Llywodraeth Cymru ac eraill â mynediad at wybodaeth gyson a pherthnasol. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda darparwyr i geisio cydsyniad yn rhagweithiol gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd ar gyfer rhannu gwybodaeth.**

### ***Gwrthod***

Rydym yn cytuno'n llawn fod yn rhaid i brofiadau dinasyddion fod yn sail ac yn ysgogiad i wella darpariaeth gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'r persbectif hwn sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn ganolog i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Felly rydym yn ceisio datblygu amgylchedd lle mae setiau data cenedlaethol cryfach yn sail ar gyfer dysgu ac ysgogi gwella gwasanaethau. Mae amrywiaeth o fesurau eisoes ar waith at y diben hwn.

Ar gyfer awdurdodau lleol rydym wedi nodi mewn Cod Ymarfer y dylai awdurdodau lleol gasglu profiadau a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaeth, a defnyddio'r

wybodaeth honno i ysgogi gwelliant, fel rhan o'r Fframwaith Perfformiad a Gwella. Rhaid i dystiolaeth o'r ymchwil honno maen nhw'n ei gwneud gael ei darparu yn Adroddiadau Blynyddol Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru hefyd yn rhoi barn defnyddwyr gofal wrth wraidd ei gwaith ei hun, a chyhoeddir casgliadau ei harolygiadau.

Fodd bynnag, nid ydym ar hyn o bryd yn ceisio gorfodi rhannu gwybodaeth am brofiadau unigolion, gan nad ydym o'r farn y bydd cost uchel gweithredu dull o'r fath ar draws cannoedd lawer o ddarparwyr yn creu budd cymesur o ran datblygu data ar ben y mesurau yr ydym eisoes wedi'u cymryd ac sydd wrth law.

**Argymhelliad – 9. Mae'r Cod Ymarfer ar arolygu sy'n deillio o ofynion Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i arolygwyr geisio lleisiau defnyddwyr gwasanaeth ym mhob arolygiad. Mae'r Pwyllgor yn ceisio sicrwydd a thystiolaeth bod y darpariaethau bellach yn cael eu gweithredu a'u monitro'n llawn.**

### ***Derbyn***

Pobl sy'n derbyn gofal a chymorth yw prif ffocws pob arolygiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae AGC wedi cynnal 705 o arolygiadau ar 614 o gartrefi gofal i oedolion rhwng 1 Hydref 2021 a 31 Awst 2022 a threuliodd 9,181 awr ar y safle yn y cartrefi gofal hynny. Mae hyn bob amser yn rhoi cyfle i siarad â phobl sy'n byw yn y cartrefi gofal a'u teuluoedd a'u ffrindiau pan fyddant yn bresennol yn ystod ein hymweliad.

Pan nad yw pobl yn gallu siarad ag AGC, er enghraifft os ydyn nhw'n byw gyda dementia, defnyddir offeryn sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r enw Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI) sy'n ein helpu i ddeall profiad pobl o fyw yn y cartref gofal. Mae AGC hefyd yn ystyried i ba raddau y mae pobl wedi bod yn rhan o ddatblygiad eu cynlluniau personol ac yn chwilio am dystiolaeth a oes gan bobl lais o ran cynnal eu cartref yn unol â gofynion y rheoliadau. Pan fo AGC yn canfod nad oes tystiolaeth o hyn, byddem yn tynnu sylw ato fel maes i'w wella a gwirio bod hyn yn cael ei weithredu yn yr arolygiad nesaf.

Yn ogystal, mae gan AGC arolwg adborth byr y gellir ei gwblhau yn ystod archwiliad neu unrhyw adeg arall gan ei fod ar gael ar-lein. Rhwng 1 Hydref 2021 a 31 Awst 2022, cafodd AGC 982 o arolygon adborth am gartrefi gofal yng Nghymru gan gynnwys 672 gan staff, 98 gan bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal a 182 gan eu cynrychiolwyr a 30 gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill. Mae AGC hefyd yn adlewyrchu barn pobl yn ein hadroddiadau arolygu fel sy'n briodol. Dyma rai dyfyniadau o adroddiadau arolygu diweddar:

- “Cynhelir iechyd a llesiant y bobl yn frwd. Dywedodd y bobl wrthym, “*Maen nhw bob amser yn ymddiddori yn sut yr ydyn ni'n ei wneud*”, a dywedodd person arall wrthym, “*Mae'r staff yn dda iawn heb unrhyw broblemau yma.*” Buom hefyd yn siarad â thair perthynas, a dywedodd un ohonynt wrthym, “*Mae'r gofal yn wych.*””

- “Mae person arall sy'n byw gyda dementia wedi symud i'r gwasanaeth yn ddiweddar. Maen nhw'n gyfforddus ac wedi ymlacio yn dilyn cyfnod o drallod cychwynnol wrth symud i mewn. Mae eu perthynas yn ymweld â'r cartref bob dydd ac mae'n hynod gadarnhaol am y staff a'r amgylchedd, gan ddweud *mai "dyma'r cartref gorau imi fod yn ddo erioed, a dwi wedi bod mewn llawer".*”

**Argymhelliad – 10. Dylai Llywodraeth Cymru roi data i'r Pwyllgor am nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd o gartrefi gofal yng Nghymru hyd yn hyn yn 2022, gan amlinellu'r gwaith arolygu a wneir am weddill y flwyddyn. Hoffai'r Pwyllgor glywed hefyd am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r ôl-groniad mewn arolygiadau yn ystod y pandemig.**

### **Derbyn**

Ar 31 Awst 2022, mae 1,044 o gartrefi gofal i oedolion sydd wedi'u cofrestru ag AGC. Mae AGC wedi arolygu 486 o'r rhain ers mis Ionawr 2022. Mae dull arolygu AGC wedi'i nodi yn ei chod ymarfer ([210122-Co-Ymarfer-ar-gyfer-cy.pdf \(arolygiaethgofal.cymru\)](#)). Mae AGC yn blaenoriaethu arolygiadau ar sail yr wybodaeth sydd gennym am wasanaethau. Yn ystod 2022, canolbwyntiodd AGC ar arolygu gwasanaethau i ddechrau pan ddaeth pryderon i'r amlwg yn sgil ein gwybodaeth, neu pan oedd AGC wedi nodi canlyniadau gwael i bobl mewn arolygiadau blaenorol ac roedd angen i AGC arolygu eto i ystyried a oedd gwelliannau wedi'u gwneud. Gwnaeth AGC hefyd flaenoriaethu arolygu gwasanaethau a oedd i fod i gael eu harchwilio yn dilyn eu hailgofrestriad o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Cafodd 1,639 o wasanaethau eu hailgofrestru rhwng 1 Ebrill 2018 a 26 Ionawr 2021.

Mae'n rhaid ystyried yr amserlen ar gyfer arolygu cartrefi gofal i oedolion ochr yn ochr â'r gofyniad i AGC arolygu 927 o wasanaethau eraill a reoleiddir i oedolion a phlant gan gynnwys gwasanaethau cymorth cartref, cartrefi gofal i blant, ysgolion preswyl, ac ati.

Rhwng 1 Hydref 2021 a 31 Awst 2022, fe wnaethom arolygu 614 o gartrefi gofal i oedolion. Nod y rhaglen arolygu gyfredol yw sicrhau eu bod wedi arolygu'r holl gartrefi gofal cofrestredig i oedolion yn y cyfnod o 18 mis rhwng 1 Hydref 2021 a 31 Mawrth 2023. Fodd bynnag, mae AGC yn ymwybodol iawn o effaith barhaus y pandemig ar y sector gofal cymdeithasol, sefyllfa a waethygydd gan bwysau recriwtio a chadw staff. Pan fydd AGC yn dod o hyd i ganlyniadau gwael i bobl, bydd yn ofynnol i'r darparwr weithredu a byddwn yn dychwelyd i arolygu'r gwasanaeth i wirio bod gwelliannau wedi'u gwneud. Gallai arolygiadau ychwanegol o'r fath olygu bod oedi cyn cwblhau'r rhaglen sydd wedi'i chynllunio ac mae hyn yn anodd i'w ragfynegi a'u meintioli.

Yn ogystal â'n gweithgarwch arolygu, mae AGC yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i gynnal a chefnogi ein rhaglen arolygu. Er enghraifft, rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â chomisiynwyr awdurdodau lleol a byrddau iechyd i rannu gwybodaeth am wasanaethau gofal. Mae hyn yn cynnwys rhannu adborth y gall comisiynwyr ei gael gan bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal a chan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol sy'n ymweld â gwasanaethau gofal yn rheolaidd. Mae AGC wedi datblygu

protocol rhannu gwybodaeth ffurfiol a memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda chomisiynwyr. Mae AGC hefyd yn annog pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu ffrindiau a'u teuluoedd a staff gofal i rannu unrhyw bryderon sydd ganddynt am wasanaethau cartrefi gofal. Mae'r wybodaeth hon yn cyfrannu at gynllunio ein gweithgarwch arolygu.

**Argymhelliad – 11. Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn ynghylch codi ffioedd atodol ac mae'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyfyngiadau rhwymol, i gyfyngu ar y meysydd lle y codir ffioedd o'r fath, y dylid eu cadw i'r lleiaf posibl a'u cyhoeddi. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cynhwysfawr o hyn cyn gynted â phosibl.**

*Gwrthod – Gweler yr ymateb ar y cyd isod ar gyfer Argymhelliad 11 a 12.*

**Argymhelliad – 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell gweithredu system gwneud iawn annibynnol gadarn i alluogi defnyddwyr gwasanaeth neu eu perthnasau i herio ffioedd atodol.**

*Gwrthod – Ymateb ar y cyd ar gyfer Argymhelliad 11 a 12*

Byddai Llywodraeth Cymru yn pryderu'n fawr iawn pan godir ffioedd ar unrhyw unigolyn am ofal lle mae'r gofal hwnnw eisoes yn cael ei ddarparu am ddim drwy bwrs y wlad.

Mae canllawiau clir eisoes ar waith yn y Fframwaith Gofal Iechyd Parhaus sy'n nodi'r dull gweithredu o ran gwasanaethau ychwanegol, a ddiffinnir fel gwasanaethau sydd yn ychwanegol at y rhai a nodir yn y cynllun gofal a ddatblygwyd i fynd i'r afael â'r angen a aseswyd. Mae'r canllawiau'n glir na ddylai trefniadau cyfraniad personol o'r fath *byth* gael eu defnyddio fel mecanwaith ar gyfer sybsideiddio'r ddarpariaeth gwasanaeth y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol amdani, dylai fod yn fater o ddewis personol, ac ni ddylid rhoi unigolion mewn perygl o gamfanteisio ariannol. Mae'r canllawiau hefyd yn darparu fframwaith atebolrwydd clir yr ydym yn disgwyl i Fyrddau Iechyd Lleol lynu ato.

Mewn perthynas â gofal a gomisiynir neu a drefnir gan awdurdod lleol, nid yw'r rheoliadau a'r cod ymarfer ar gyfer codi ffioedd am ofal cymdeithasol oedolion ond yn darparu sefyllfaoedd cyfyngedig a phenodol iawn lle y gallai taliadau cost ychwanegol fod yn briodol; e.e. pan fydd awdurdod lleol wedi cytuno i gais unigolyn i gael llety drutach nag y byddent fel arfer yn ei ddarparu. Ar gyfer gofal a gomisiynir neu a drefnir gan awdurdod lleol, mae adnoddau neu sianeli pellach ar gael y gall unigolion eu dilyn, gan gynnwys mynediad at eiriolaeth, system gwynion yr awdurdodau lleol a'r Ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus.

I bobl sy'n hunanariannu ac yn trefnu eu gofal eu hunain rydym yn disgwyl i ddarparwyr cartrefi gofal fod yn glir ac yn onest am y ffioedd y maent yn eu codi ar unigolion am ofal preswyl. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith iddynt nodi'r wybodaeth hon yn eu canllaw ysgrifenedig ar gyfer y gwasanaeth yn ogystal â chytundeb gwasanaeth unigolyn.

Gyda'r trefniadau hyn ar waith, nes ein bod wedi rhoi ystyriaeth lawn i ganfyddiadau'r Grŵp Arbenigol ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, ac wedi ymgysylltu â



phartneriaid ar y camau nesaf, ni fyddai'n briodol ymrwymo i unrhyw ddiwygiadau eang i reoleiddio na dechrau system gwneud iawn annibynnol newydd ar yr adeg benodol hon, yn absenoldeb y manylion hynny.

Fodd bynnag, yn unol â thystiolaeth a ddarparwyd i'r pwyllgor, yn amodol ar ganlyniad y Grŵp Arbenigol ac fel rhan o unrhyw system newydd byddem yn darparu unrhyw eglurhad pellach neu ddiweddarach sydd ei angen ynghylch codi ffioedd am wasanaethau ychwanegol. O ran gwneud iawn, byddai angen inni ystyried yn ofalus sut y gallai unrhyw fireinio canlyniadol y gallem ei wneud i'r rheoliadau a'r fframweithiau presennol eistedd yng nghyd-destun unrhyw system newydd, a chynghor presennol yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar gyfraith defnyddwyr ar gyfer darparwyr cartrefi gofal y DU ar gyfer pobl hŷn, sydd eisoes yn darparu lefel o amddiffyniad i bobl.

**Argymhelliad – 13. Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor i amlinellu ei bwriadau ar gyfer cronfeydd cyfun ar gyfer comisiynu cartrefi gofal, yng nghyd-destun y diwygiadau polisi parhaus yn y sector a'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol a'r Fframwaith Cenedlaethol arfaethedig.**

***Derbyn***

Fel rhan o'r rhaglen ailgydbwysu gofal a chymorth, mae pum grŵp gorchwyl a gorffen wedi'u sefydlu i ystyried a chryfhau integreiddio rhanbarthol ac i weithio ar y cyd drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwasanaethau Integredig wedi bod yn adolygu'r ddarpariaeth a'r trefniadau presennol yn benodol ar gyfer cyfuno cronfeydd yn rhanbarthol ac yn cymeryd i ystyriaeth yr argymhellion yn adroddiad 2021 Archwilio Cymru ar gomisiynu cartrefi gofal i bobl hŷn. Bydd hefyd yn adolygu ac yn ystyried effaith a defnydd pecyn cymorth cyllidebau cyfun Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a gydgyhyrchwyd yn 2019 gydag ystod o randdeiliaid i ddarparu canllawiau ymarferol ar sut i oresgyn rhwystrau posibl i drefniadau cronfeydd cyfun.

Mae ymgysylltu ag aelodau'r grŵp gorchwyl a gorffen a dysgu o adolygiad KPMG o drefniadau cyllidebau cyfun yn awgrymu bod angen newid i sicrhau bod comisiynu ar y cyd yn fwy effeithiol, yn canolbwyntio ar y canlyniadau a bod cronfeydd cyfun yn cael eu hystyried fel offeryn mewn trefniant comisiynu ar y cyd yn hytrach na'i fod yn cael ei weld fel y nod terfynol ynddo'i hun.

I'r perwyl hwnnw bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn debygol o wneud argymhellion ynghylch diwygio canllawiau rhan 9 a fydd yn:

- Canolbwyntio ar gyfuno adnoddau, sy'n mynd y tu hwnt i gyfuno cyllidebau yn unig;
- Rhoi safle mwy amlwg i gronfeydd cyfun yng nghyd-destun comisiynu ar y cyd;
- Darparu mwy o hyblygrwydd i bartneriaid mewn perthynas â sut, pryd a lle maen nhw'n cyfuno cronfeydd h.y. yn rhanbarthol, yn isranbarthol, yn lleol neu'n unigol; a
- Tynnu sylw at feysydd blaenoriaeth eraill ar gyfer comisiynu ar y cyd a chyfuno adnoddau.

Bydd argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen, yn amodol ar ystyriaeth a phenderfyniad Gweinidogol, yn llywio canllawiau statudol diwygiedig Rhan 9 y disgwylir ymgynghori arnynt yng ngwanwyn 2023.

Yn dilyn cymeradwyaeth Weinidogol i'r canllawiau drafft diwygiedig, bydd y Pwyllgor yn cael copi o'r dogfennau ymgynghori yn ffurfiol er mwyn iddynt eu hystyried a gwneud sylwadau arnynt.